**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Derbyn Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn**

**Ystafell Aeron Fach, Campws Felin-fach**

**ddydd Mawrth, 19 Mai 2015.**

**6.30 pm – 7.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd), Lodwick Lloyd (Llywodraethwr Ysgol)

**Swyddogion wrth law:** Eifion Evans (Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau), Nia James (Gwasanaethau Dysgu), Kay Davies (Gwasanaethau Democrataidd).

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Barry Rees, Carol Davies a Peter Leggett am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**2 Datgelu Buddiannau Personol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2014**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2014 yn rhai cywir.

**4 Materion yn codi o'r cofnodion**
**9. Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad Ceredigion**
Dywedodd y Cadeirydd y cafodd ei benodi yn llywodraethwr yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Bu'n canmol gwaith y staff yn yr uned.

**5 Dogfen Wybodaeth i Rieni**

Soniwyd y byddai'r Ddogfen Wybodaeth ar gyfer Rhieni, a gâi ei pharatoi yn ystod tymor yr haf, wedi'i chwblhau erbyn mis Medi yn barod i'w chyhoeddi ym mis Tachwedd.

**6 Apeliadau oedd a wnelont â Derbyn**

Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw apeliadau ers y cyfarfod blaenorol.

**7 Niferoedd Derbyn**

Nodwyd fod y rhagamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cael eu paratoi. Byddai'r ffigurau ar gael yn y cyfarfod dilynol.

**8 Polisi Derbyn**

Nodwyd bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r Polisi Derbyn yn ddiweddar.

## 9 Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad Ceredigion

**i. Presenoldeb Ysgolion**
Nodwyd bod Hysbysiadau Cosb am ddiffyg presenoldeb cyson yn yr ysgol / darpariaeth addysg amgen yn cael eu defnyddio yng Ngheredigion bellach. Hyd yn hyn, cyflwynwyd pedwar hysbysiad cosb. Nodwyd bod yr hysbysiadau cosb yn offerynnau statudol yn unol â Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013.

Roedd ysgolion yn medru gwneud cais am hysbysiad cosb mewn achosion lle'r oedd disgyblion yn absennol heb awdurdod neu'n dod yn hwyr i'r ysgol yn gyson. Ni chyflwynid hysbysiad cosb ond ar ôl ystyried yr achos yn drylwyr a rhoi rhybuddion i'r rhieni mewn da bryd. Yn eu hanfod, defnyddid hysbysiadau cosb fel arf ychwanegol wrth sicrhau bod presenoldeb yn cadw'n uchel yn y sectorau cynradd ac uwchradd fel ei gilydd, gan ddiogelu hawl pob disgybl unigol i dderbyn addysg llawn amser.
**ii. ERW a phresenoldeb ysgolion**
Ceredigion sy'n arwain ar bresenoldeb yng nghonsortiwm ERW. Roedd chwe awdurdod lleol ERW bellach yn ymdrin â phresenoldeb yn yr un modd, ac wedi penderfynu mabwysiadu dull 'Cefnogi a Herio' Ceredigion a oedd yn cynnwys pedair haen:

a. Partneriaeth rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol ar weithdrefnau presenoldeb.
b. Siart llif yn dangos y weithdrefn bresenoldeb y dylai pob ysgol yn rhanbarth ERW ei dilyn. Drwy hyn fe nodir yn amlwg y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw fater sydd a wnelo â phresenoldeb.
c. Ffurflen hunan-arfarnu i fesur perfformiad cyfredol yr ysgol a'r cyfleoedd ar gyfer gwella.
d. Templed cynllun gweithredu ar gyfer ysgolion y mae arnynt angen mwy o gymorth i gyflawni eu targedau presenoldeb.

**PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

## 10 Unrhyw Fater Arall

i. Cyflwynwyd dyddiadau tymhorau'r ysgol ar gyfer 2016-17 i Lywodraeth Cymru. Cyhoeddid y dyddiadau unwaith y ceid ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.
ii. Nodwyd y byddai pob ysgol yng Nghymru â'r un dyddiadau derbyn o 2018 ymlaen. Roedd y dyddiadau newydd yn gynt na'r rhai arferol yng Ngheredigion, a byddent yn cael eu treialu yn y sir o 2017 ymlaen .
iii. Byddai manylion am y system gwybodaeth disgyblion newydd yn y Ganolfan Athrawon ar gael yn y cyfarfod dilynol.
iv. Nodwyd y byddai Adroddiad Blynyddol ar Dderbyniadau i Ysgolion yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru cyn bo hir.
v. PENDERFYNWYD ail-ethol Mr Eifion Evans a Mr Lodwick Lloyd i'r Fforwm. Adolygid aelodaeth y Fforwm cyn y cyfarfod dilynol.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar xx.xx.15**

**Cadeirydd**